DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda,

Practis Deintyddol Eastgate.

7 Mai 2015

Gellir darparu’r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr am fod ieithoedd a fformatau eraill yn cael eu cynhyrchu ar gais i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o’r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Y Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.hiw.org.uk



ISBN Digidol 978-1-4734-3895-8


© Hawlfraint y Goron 2015

## Cynnwys


1. Cyflwyniad ..... 2
2. Methodoleg ..... 2
3. Cyd-destun ..... 4
4. Crynodeb ..... 5
5. Canfyddiadau ..... 6

   Profiad y Claf ..... 6

   Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal ..... 9

   Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ..... 11

   Ansawdd yr Amgylchedd ..... 14

6. Y Camau Nesaf ..... 16

   Atodiad A ..... 17

## 1. Cyflwyniad

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Eastgate yn 29 Eastgate, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2AR, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar 7 Mai 2015.

Ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol yn ystod yr arolygiad:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

## 2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o bractisau deintyddol cyffredinol yn ceisio canfod pa mor dda mae practisau yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal.[1] Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd hefyd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[2] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[3] Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal ag unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol eraill.

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio

---

[1] http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/hafan

[2] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made

[3] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made

- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan fo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn darparu trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Caiff y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd eu hysbysu o unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol drwy gyfrwng llythyr gweithredu ar unwaith. Bydd manylion canfyddiadau o'r math hwn, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd safonau yn y practis yr ymwelwyd ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

## 3. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Eastgate yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Aberystwyth yng Ngheredigion. Mae'r practis yn ffurfio rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir o fewn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Mae Practis Deintyddol Eastgate yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau preifat a gwasanaethau'r GIG.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys tri deintydd, (un dan hyfforddiant), un hylenydd, pedair nyrs (un dan hyfforddiant), un rheolwr practis ac un derbynnydd.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Diagnosis ac atal
- Deintyddiaeth adferol
- Gwaith ar y corun a'r bont
- Triniaethau cosmetig
- Amrywiaeth o driniaethau preifat.

## 4. Crynodeb

Roedd AGIC yn ystyried sut mae Practis Deintyddol Eastgate yn bodloni'r safonau gofal a nodir yn Safonau Iechyd a Gofal Ebrill 2015.

Ar y cyfan, dywedodd cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth roeddent yn ei dderbyn gan y practis deintyddol, a'u bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Roedd adborth o holiaduron cleifion AGIC yn gadarnhaol.

Gwelsom fod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u darparu ar gyfer cleifion mewn modd diogel. Gwelsom fod yr holl ystafelloedd triniaeth i'w gweld yn lân, yn daclus, ac wedi'u trefnu'n dda. Gwelsom dystiolaeth a oedd yn dangos bod y gofal a oedd y cael ei ddarparu o safon uchel.

Roedd gan y practis amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith, â'r bwriad o ddarparu gofal diogel ar gyfer cleifion. Gwelsom fod y practis yn cael ei redeg yn effeithlon a bod staff yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd. Roedd y tîm yn broffesiynol ac yn gydlynol.

Gwelsom fod y practis yn lân ac wedi'i gynnal a'i gadw'n briodol er mwyn darparu amgylchedd diogel i gleifion wrth iddynt dderbyn triniaeth. Mae mynediad i'r practis yn addas i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn.

## 5. Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

**Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth roeddent yn ei dderbyn gan y practis deintyddol, a'u bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Roedd adborth o holiaduron cleifion AGIC yn gadarnhaol.**

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r practis ddosbarthu holiaduron AGIC er mwyn gwybod barn cleifion ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd 15 holiaduron cleifion cyn dyddiad yr arolygiad. Gwnaethom hefyd siarad â dau glaf ar ddiwrnod yr arolygiad. Roedd adborth cleifion yn gyson gadarnhaol. Dywedodd yr holl gleifion eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth roeddent yn eu derbyn yn y practis, a'u bod yn teimlo eu bod yn cael croeso gan y staff. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion wrthym nad oeddent wedi profi unrhyw oedi wrth aros i weld y deintyddion, er i dri chlaf sôn am oedi o rhwng 10 ac 20 munud.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *"Gwasanaeth ardderchog."*
>
> *"Rwy'n glaf nerfus iawn ac rwy'n dioddef o bryder mawr cyn ac yn ystod unrhyw driniaeth neu ymgynghoriadau... Rydw i wedi cael profiadau yn y gorffennol sydd wedi bod yn negyddol iawn... Dyw'r practis deintyddol hwn ddim wedi gwneud imi deimlo'n wael nac yn anghyfforddus, ac maen nhw wedi bod yn gymwynasgar a pharchus iawn tuag ata' i."*
>
> *"Cafodd fy nant ei dynnu heddiw. Roedd yn dyner iawn o gymharu â phrofiad blaenorol mewn practis arall..."*
>
> "Ers bod yn glaf, rydw i wedi cael fy nghyfarch bob tro gan dderbynyddion gwahanol mewn ffordd gyfeillgar a charedig. Mae pob deintydd rydw i wedi ei weld dros y blynyddoedd wedi bod yn gymwynasgar ac wedi esbonio'r driniaeth/triniaethau imi, er y byddai wedi bod yn neis gweld yr un deintydd (GIG) dros y blynyddoedd. Rwy'n deall mai practis hyfforddi yw e, ond mae'n neis dod i adnabod yr un un..."

*Mae'r deintydd, y nyrsys deintyddol a'r derbynyddion i gyd yn ardderchog, yn effeithlon ac yn gwrtais."*

*"Tîm deintyddol gwych a charedig."Y tîm hwn yw'r gorau o bedwar practis deintyddol gwahanol."*

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion eu bod yn gwybod sut i ddefnyddio'r gwasanaethau deintyddol y tu allan i oriau.. Gwelsom arwydd yn ffenestr y practis yn dangos y rhif cyswllt mewn argyfwng, a gwnaethom gadarnhau bod rhif cyswllt wedi ei gynnwys ar neges peiriant ateb y practis.

Dywedodd yr holl gleifion eu bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Dywedodd y staff wrthym fod opsiynau triniaeth yn cael eu trafod â'r cleifion, a gwelsom dystiolaeth o hyn wedi ei chofnodi yn nodiadau'r cleifion.

Roedd system apwyntiad hyblyg ar waith a gallai cleifion drefnu apwyntiadau ymlaen llaw yn ogystal ag ar sail argyfwng, gan alluogi cleifion i gael eu gweld yn gyflym pe bai angen.

Roedd taflenni gwybodaeth y practis ar gael yn y dderbynfa. Roedd gwefan ar gael a oedd yn cynnwys gwybodaeth berthnasol ar gyfer cleifion, ac roedd yn glir ac yn hawdd ei defnyddio. Fodd bynnag, nid oedd yn cyd-fynd yn union â chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar Egwyddorion Hysbysebu'n Foesegol (Mawrth 2012), ac roedd angen ei hadolygu. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod y wefan eisoes yn cael ei hail-ddatblygu.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis sicrhau bod y wefan yn cydymffurfio â chanllawiau Egwyddorion Hysbysebu'n Foesegol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.***

Roedd gan y practis amrywiaeth o wybodaeth hyrwyddo iechyd ar gael yn y mannau aros, gan gynnwys rhoi'r gorau i ysmygu ac ymwybyddiaeth o ganser y geg.

Nid oedd gan y practis system ar waith ar gyfer casglu barn cleifion yn rheolaidd. Gwnaethom drafod y mater hwn â rheolwr y practis a'r prif ddeintydd, a ddywedodd wrthym eu bod wedi bod yn cynnal archwiliadau blynyddol a bod ganddynt flwch awgrymiadau, ond nid oeddent wedi'u defnyddio ers ychydig o flynyddoedd.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis ddatblygu system ar gyfer casglu barn cleifion yn rheolaidd a gweithredu ar y wybodaeth a gesglir.***

Pan wnaethom ofyn ynglŷn â gwneud cwyn, dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion wrthym nad oeddent yn gwybod sut i wneud hynny. Gwelsom fod y weithdrefn gwyno wedi'i harddangos y tu ôl i'r ddesg yn y dderbynfa. Fodd bynnag, roedd y print yn fach ac nid oedd yn hawdd ei gweld. Nid oedd cyngor ar y wefan ynglŷn â gwneud cwyn na lleisio pryder. Hefyd mae'n rhaid cynnwys cyfeiriad AGIC ar gyfer cleifion preifat.

Roedd system ar waith er mwyn i gleifion eu hatgyfeirio eu hunain at yr hylenydd. Roedd hwn yn faes o arfer nodedig.

## *Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal*

**Ar y cyfan, gwelsom fod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u cyflenwi i gleifion mewn modd diogel. Gwelsom fod yr holl ystafelloedd triniaeth yn ymddangos yn lân, yn daclus, ac wedi'u trefnu'n dda. Gwelsom dystiolaeth a oedd yn dangos bod y gofal a oedd y cael ei ddarparu o safon uchel.**

### Cyfleusterau clinigol

Gwnaethom edrych ar gyfleusterau clinigol pob un o dair ystafell driniaeth y practis, a gweld eu bod yn cynnwys offer addas ar gyfer diogelwch cleifion a staff. Roedd yr ystafelloedd triniaeth i gyd yn ymddangos yn lân, yn daclus, ac wedi eu trefnu'n dda. Roedd yr holl arwynebau yn  glir rhag annibendod er mwyn eu glanhau mewn modd effeithiol. Gwelsom dystiolaeth o'r trefniadau glanhau dyddiol a wnaed gan y nyrsys, a oedd yn cael eu cofnodi'n glir iawn. Gwelsom hefyd dystiolaeth bod profion dyfeisiau cludadwy wedi cael eu cynnal i wirio bod y dyfeisiadau trydanol bach a ddefnyddir yn y practis yn addas i'r diben ac yn ddiogel i'w defnyddio.

### Dadheintio offer

Roedd gan y practis ystafelloedd neilltuedig ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol. Gwelsom fod prosesau addas ar waith er mwyn atal cleifion rhag croes-heintio. Roedd yr ystafelloedd wedi'u trefnu mewn ffordd addas er mwyn glanhau offer yn effeithiol.

Roedd polisi rheoli heintiau ar waith. Gwelsom fod llyfrau cofnodi addas wedi'u cwblhau ar gyfer gwirio a chynnal a chadw offer glanhau bob dydd. Roedd yr holl lyfrau cofnodion wedi'u cwblhau i safon uchel. Roedd hyn yn golygu bod gan y practis system dda ar gyfer sicrhau bod offer glanhau yn gweithio'n iawn.

Gwelsom dystiolaeth bod staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddadheintio a rheoli heintiau. Roedd y practis wedi cynnal archwiliad rheoli heintiau, ac wedi defnyddio'r dull o archwilio a ddatblygwyd gan Brifysgol Caerdydd, fel yr argymhellir gan ganllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

### Gwaredu gwastraff

Roedd gwastraff yn cael ei drin, ei storio a'i waredu'n briodol yn y practis, ac roedd contract gwaredu gwastraff cyfredol ar waith.

### Cyfarpar radiograffeg (pelydr-X)

Roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffeg (pelydr-X) yn ddiogel. Roedd dogfennaeth berthnasol ar gael, gan gynnwys dogfennau ynglŷn ag archwiliadau diogelwch, cynnal a chadw, a phrofi. Gwelsom dystiolaeth bod yr holl staff clinigol wedi mynychu hyfforddiant addas ar ymbelydredd ïoneiddio. Gwnaethom edrych ar y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd, sy'n cynnwys manylion ynglŷn â'r offer a'r gweithdrefnau pelydr-X at ddefnydd staff, ac roedd yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol.

**Cyfarpar meddygol brys a meddyginiaeth frys**

Roedd offer dadebru a meddyginiaeth ar gael i staff pe bai argyfwng gyda chlaf (llewyg) yn y practis. Gwelsom fod gan y practis system addas ar waith er mwyn sicrhau bod cyfarpar dadebru a meddyginiaeth frys yn cael eu gwirio'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Gwelsom dystiolaeth ardystiedig bod staff y practis wedi derbyn hyfforddiant cyfredol ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol, a bod swyddogion cymorth cyntaf penodedig. Roedd hyn yn golygu bod gan y staff y sgiliau angenrheidiol, a mynediad at gyfarpar a chyffuriau achub bywyd, er mwyn eu galluogi i ymateb yn brydlon pe bai argyfwng meddygol. Fodd bynnag, gwnaethom drafod manteision awto-chwistrellwr ar gyfer plant – ac ynddo ddos wedi'i fesur ymlaen llaw – â'r prif ddeintydd, (i'w ddefnyddio pe bai rhywun yn cael adwaith alergaidd).

**Cofnodion cleifion**

Gwnaethom edrych yn fanwl ar sampl o gofnodion 11 o gleifion. Ar y cyfan gwelsom fod y dull o gadw'r cofnodion o safon uchel iawn.

Roedd gweithdrefnau triniaeth ac opsiynau ar gyfer triniaeth yn cael eu hegluro ar lafar, ac yn cael eu cofnodi yn nodiadau'r cleifion. Roedd pob claf yn derbyn cynlluniau triniaeth ac roedd pob agwedd ar y cofnodion electronig unigol wedi'i chwblhau yn llawn.

## *Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Roedd gan y practis amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith, â'r bwriad o ddarparu gofal diogel ar gyfer cleifion. Gwelsom fod y practis yn cael ei redeg yn effeithlon a bod staff yn cydweithio'n effeithiol. Roedd y tîm yn broffesiynol ac yn gydlynol.**

Un prif ddeintydd yw perchennog annibynnol Practis Deintyddol Eastgate. Rheolwr y practis  oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd. Roedd wedi bod yn y swydd ers ychydig o amser yn unig, ac roedd yn gwneud newidiadau sylweddol i'r dulliau o weithio. Gwelsom fod y practis yn cael ei redeg mewn ffordd effeithlon a bod y staff yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd fel tîm. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw ar ddiwrnod yr arolygiad eu bod yn hapus yn eu rolau, a bod ganddynt ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau. Roeddent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y prif ddeintydd a rheolwr y practis. Yn ystod ein trafodaethau â'r deintyddion, daeth i'r amlwg  bod ganddynt lefel uchel o ofal a thrugaredd â'u cleifion, ac roeddent yn awyddus i weithio er eu budd gorau ar bob adeg.

Gwelsom fod gan y practis amrywiaeth o bolisïau, gweithdrefnau a thystysgrifau cynnal a chadw perthnasol ar waith, a bod system addas ar waith er mwyn sicrhau bod y tystysgrifau hyn yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Fodd bynnag, mae'n rhaid i bolisïau a gweithdrefnau fod yn benodol i'r practis, ac mae'n rhaid cofnodi dyddiadau adolygu. Byddai hyn yn sicrhau bod dulliau o weithredu y cytunir arnynt yn benodol i'r practis, a gallai'r practis ddangos eu bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod cyfarfodydd staff wedi cael eu hail-ddechrau, ac y byddent yn cael eu cynnal yn fisol yn y dyfodol. Gwelsom enghreifftiau o nodiadau cyfarfodydd diweddar a oedd yn cofnodi manylion trafodaethau'r cyfarfodydd. Dywedodd staff wrthym eu bod yn cael eu hannog i leisio unrhyw bryderon yn ystod y cyfarfodydd hyn, ond y byddent hefyd yn teimlo'n gyfforddus i leisio pryderon wrth y prif ddeintyddion neu wrth reolwr y practis ar unrhyw adeg.

Ar y pryd nid oedd arfarniadau staff blynyddol yn cael eu cynnal, er mwyn sicrhau cymhwysedd staff ac i nodi unrhyw anghenion hyfforddi a datblygu. Nododd drafodaeth â rheolwr y practis bod hwn yn faes i'w ddatblygu.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid i'r practis ddatblygu system ar gyfer arfarnu staff yn flynyddol, er mwyn sicrhau cymhwysedd staff ac i sicrhau eu bod yn derbyn cefnogaeth ffurfiol.***

Mae’r practis yn bractis hyfforddi sydd wedi’i hen sefydlu ar gyfer deintyddion, ac ar hyn o bryd roedd un deintydd yn dilyn blwyddyn sylfaen o hyfforddiant deintyddol.

Gwnaethom edrych ar drefniadau llywodraethu clinigol a oedd ar waith yn y practis. Gwelsom dystiolaeth o amrywiaeth o archwiliadau. Roedd hyn yn golygu bod gan y practis system addas ar waith er mwyn monitro ansawdd a diogelwch y gofal a oedd yn cael ei ddarparu.

Gwnaethom edrych ar wybodaeth am y staff yn y practis. Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff clinigol wedi cael eu cofrestru gyda’r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, a bod ganddynt yswiriant indemniad priodol. Gwelsom hefyd fod gan yr holl staff gontractau cyflogaeth ar waith. Gwnaethom hysbysu rheolwr y practis am yr angen i ddiweddaru'r rhain er mwyn dangos enw newydd y practis.

Gwelsom dystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus personol (hyfforddiant) a gwblhawyd gan staff y practis, a oedd yn dangos bod staff wedi cael cyfleoedd hyfforddi a oedd yn berthnasol i'w swyddi. Roedd hyn yn golygu y gallai cleifion fod yn sicr eu bod yn derbyn triniaeth gan staff sydd â sgiliau priodol a hyfforddiant cyfredol ac sy'n hyderus ac yn gyfarwydd â'u gweithle.

Ar adeg yr arolygiad, nid oedd gan yr holl ddeintyddion dystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, wedi'u dyddio yn ystod y tair blynedd diwethaf yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. Anfonwyd llythyr gofyn am sicrwydd ar unwaith ar 8 Mai 2015, yn gofyn am gadarnhad bod cais wedi'i wneud am y rhain. Derbyniodd AGIC gadarnhad ar 13 Mai 2015.

Roedd gan y practis drefniadau addas ar gyfer cofnodi damweiniau a digwyddiadau. Roedd gan y practis hefyd drefniadau addas ar waith i gynnig cymorth iechyd galwedigaethol trwy’r bwrdd iechyd lleol. Gwelsom gofnodion a ddangosodd fod y rhan fwyaf o'r staff clinigol wedi derbyn brechiadau priodol i'w hamddiffyn rhag firysau a gludir yn y gwaed.

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer cofnodi pryderon ffurfiol (cwynion) ac ymateb iddynt, er nad oedd pryderon llafar a phryderon anffurfiol yn cael eu cofnodi ar y pryd. Gwelsom fod yr holl ohebiaeth ynglŷn â phryderon yn cael ei chadw gyda'i gilydd yn ganolog mewn ffeil bapur, ar wahân i gofnodion cleifion. Nid oedd y polisi yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, sy'n nodi y dylai cyfeiriad AGIC fod ar gael ar gyfer cleifion preifat hefyd.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Rhaid i'r practis gofnodi pryderon llafar a phryderon anffurfiol yn unol â chanllawiau Gweithio i Wella***[4].

***Rhaid i'r practis sicrhau bod cyfeiriad AGIC ar gael ar y polisi cwyno.***

---

[4]Nod Rheoliadau 'Gweithio i Wella' yw symleiddio'r modd y caiff pryderon am y GIC eu trin.

## *Ansawdd yr Amgylchedd*

**Gwelsom fod y practis yn lân ac wedi'i gynnal a'i gadw'n briodol, er mwyn darparu amgylchedd diogel i gleifion wrth iddynt dderbyn triniaeth. Mae mynediad i'r practis yn addas i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn.**

Lleolir y practis yng nghanol tref Aberystwyth. Mae gan y practis dair ystafell driniaeth, un ar y llawr daear a dwy ar y llawr cyntaf. Nid oes gan y practis leoedd parcio neilltuedig ar gyfer cleifion, ond mae lleoedd parcio ar gael wrth ochr y ffordd yn agos i'r practis.

Mae mynediad at y practis yn addas ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn, ac roedd holl fframiau drysau llawr daear y practis yn ddigon llydan i ddefnyddwyr cadair olwyn fynd drwyddynt. . Nid oes lifft i'r llawr cyntaf, ond caiff defnyddwyr cadair olwyn eu gweld yn yr ystafell driniaeth ar y llawr daear.

Cadarnhaodd taith o gwmpas yr adeilad fod y practis wedi'i gynnal a'i gadw'n dda – y tu mewn a'r tu allan. Roedd y practis yn lân, yn daclus ac wedi'i oleuo'n ddigonol drwyddo draw. Roedd hyn yn darparu amgylchedd dymunol ar gyfer cleifion wrth iddynt dderbyn triniaeth. Roedd y dderbynfa a'r mannau aros o faint addas ar gyfer nifer yr ystafelloedd triniaeth.

Roedd gan y practis ddau dŷ bach. Roedd y ddau yn amlwg yn lân a chanddynt gyfleusterau golchi dwylo addas er mwyn rheoli heintiau.

Roedd oriau agor y practis a'r rhif cyswllt mewn argyfwng ar arwydd y tu allan i'r practis. Roedd enwau a chymwysterau pob deintydd wedi'u harddangos y tu allan, ynghyd â'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Fodd bynnag, mae'n rhaid dangos rhestr o'r holl staff, eu dynodiad a'u cofrestriad â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, y tu mewn i'r adeilad. Roedd rhestrau prisiau wedi'u harddangos yn y dderbynfa.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n rhaid dangos rhestr o'r holl staff, eu dynodiad a'u rhif cofrestru â'r Cyngor Deintyddol y tu mewn i'r practis.***

Yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, roedd pob deintydd a oedd yn darparu triniaeth breifat wedi'i gofrestru gydag AGIC, ac roedd ei dystysgrif wedi'i harddangos y tu mewn i'r practis.

Roedd arwyddion ar gyfer yr allanfeydd tân, ac roedd diffoddwyr tân wedi'u harchwilio'n briodol. Gwelsom dystiolaeth bod mesurau a systemau ar waith er

mwyn amddiffyn staff a chleifion pe bai tân. Gwelsom hefyd fod trefniadau addas ar waith i atal mynediad heb awdurdod i'r adeilad.

Roedd cofnodion a gwybodaeth cleifion yn cael eu cadw’n ddiogel, ac roedd copïau electronig wrth gefn yn cael eu diweddaru ar ddyfais allanol bob dydd. Roedd hyn yn golygu bod y practis wedi cymryd camau i sicrhau diogelwch cleifion a'u gwybodaeth.

## 6. Y Camau Nesaf

Mae’r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i’r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella mewn perthynas â'r meysydd a nodwyd. Gellir gweld y manylion hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai’r cynllun gwella nodi’n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Mhractis Deintyddol Eastgate yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o’r broses arolygu deintyddol barhaus.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Practis Deintyddol Eastgate

## Dyddiad yr Arolygiad: 7 Mai 2015

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Profiad y Claf** | | | |
| Tudalen 7 | Dylai'r practis sicrhau bod y wefan yn cydymffurfio â chanllawiau Egwyddorion Hysbysebu'n Foesegol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol). | Mae gwefan newydd ar gyfer ein practis yn cael ei datblygu ar hyd o bryd. Bydd yn cynnwys adran adborth i'w llenwi gan ein cleifion, a bydd hefyd yn cynnwys ein polisi/gweithdrefn gwyno. | Elizabeth Dykes | Yr amcangyfrif yw 31 Gorffennaf 2015 fan bellaf |
| Tudalen 7 | Dylai'r practis ddatblygu system ar gyfer casglu safbwyntiau cleifion yn rheolaidd a gweithredu ar y wybodaeth a gesglir.<br><br>[Safonau Iechyd a Gofal (6.3) a chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol (2.1)] | Mae bocsys awgrymiadau/adborth ar gael i'w defnyddio unwaith yn rhagor yn y ddwy ystafell aros, a bydd archwiliadau blynyddol ar safbwyntiau cleifion yn ail-ddechrau.<br><br>Ar hyn o bryd mae adran adborth cleifion ar ein gwefan gyfredol, ac fe fydd ar gael ar gyfer | Elizabeth Dykes | Cwblhawyd<br><br>Yr amcangyfrif |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | cleifion ar ein gwefan newydd pan fydd wedi cael ei lansio, ynghyd â pholisi cwyno ein practis. | | ar gyfer cwblhau'r wefan newydd yw 31 Gorffennaf fan bellaf. |
| | **Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal** | | | |
| | Nid oes angen unrhyw welliannau. | | | |
| | **Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | |
| Tudalen 11 | Rhaid i'r practis ddatblygu system ar gyfer arfarnu staff yn flynyddol, er mwyn sicrhau cymhwysedd staff ac i sicrhau eu bod yn derbyn cefnogaeth ffurfiol.<br><br>[Safonau Iechyd a Gofal (7.1) a chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol (6.1.1)]. | Cynhaliwyd yr arfarniadau staff diwethaf ar 29 Ebrill 2015, ac yn y dyfodol byddant yn cael eu cynnal yn flynyddol. | Elizabeth Dykes<br><br>James Trigg | Cwblhawyd |
| Tudalen 12 | Rhaid i'r practis gofnodi pryderon llafar a phryderon anffurfiol yn unol â chanllawiau Gweithio i Wella. | Bydd y practis bellach yn cofnodi pryderon llafar a phryderon anffurfiol yn unol â chanllawiau Gweithio i Wella. | Elizabeth Dykes | Cwblhawyd |
| Tudalen | Rhaid i'r practis sicrhau bod cyfeiriad AGIC ar | Mae ein polisi cwyno bellach yn fwy ac yn haws | Elizabeth Dykes | Cwblhawyd |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| 12 | gael ar y polisi cwyno.<br><br>[Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008]. | ei ddarllen. Mae wedi cael ei symud yn agosach i'r ddesg ffrynt bellach ac mae'n fwy hygyrch i gleifion. Mae wedi cael ei ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg, ac mae enw llawn a chyfeiriad rhif ffôn AGIC wedi cael eu hychwanegu, yn ogystal â dolen at ei gwefan. | | |
| | **Ansawdd yr Amgylchedd** | | | |
| Tudalen 13 | Mae'n rhaid dangos rhestr o'r holl staff, eu dynodiad a'u rhif cofrestru â'r Cyngor Deintyddol y tu mewn i'r practis.<br><br>[Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol (6.6.10)]. | Mae'r ddogfen hon bellach wedi'i chreu, ac mae wedi'i harddangos wrth ddesg ffrynt y practis. Mae'n hawdd ei darllen ac yn hygyrch i bob claf. | Elizabeth Dykes | Cwblhawyd |

## Cynrychiolydd y practis:

**Enw (printiwch):** **James Trigg**

**Teitl:** **Prif Ddeintydd y Practis**

**Dyddiad:** **8 Mehefin 2015**